

**Diwrnod Casglu**  
**gan Natasha Kaeda**  
**Cyfieithwyd gan Lowri Morgan**



**Eleri:** Pedwar diwrnod wedi ei farwolaeth, oedd y Diwrnod Casglu  
Sefais ar y stepen gefn ac edrych mas ar y bryniau.

**FX: cân adar heddychlon, swm o'r afon yn y pellter**

Fe gwrrddom, fo a fi  
Y dydd llun cyntaf wedi'r heuldro.  
Pan mae'r caeau a'r blodau - wedi ei bwydo gan gynhesrwydd yr haul, yn  
cyrraedd eu brig, barod i'w casglu.  
Am wedyn.  
Pan mae'r nos yn hir ac mae'r oerni yn ein hesgyrn.

Casglu briw'r march cyn y wawr.  
Uchelwydd sy'n gweld popeth wedi ei datglymu o ganghennau Derw  
Pwllpriddog.  
Pentref cyfan - pawb sy'n gallu -  
Cerdded i ben y mynydd,  
Coelcerth yn fyw yn y cyfnos.

**FX: swm tân, lleisiau**

**Daf:** *Rho i mi yn ôl.*  
*Fel y dail sydd yn disgyn yn yr Hydref ac yn dod eto yn y cennin Pedr pob*  
*gwanwyn.*  
*Byddaf yn seibiant yr awel, disco'r sêr.*

Y ferch, fi - ifanc yn yr esgyrn a'r pen - wedi swatio uchelwydd odan ei chlustog,  
Yn gobeithio gweld pethau o ganlyniad yn uchel ar yr agenda am weddill fy mywyd.

Pedair ar bymtheg ac wedi arfer ymestyn am bethau o faint.  
Carnedd.  
Brig.  
Man lle gallaf arolygu fy mywyd a'r tir.  
Dyffryn wedi ei hollti gan rew. Wedi plygu, wedi diffygio  
Carreg yn gorffwys.

Ysu am y teimlad o gyrraedd.  
Buddugoliaeth o'r gopa.

Ond pryd yw e pan i chi'n cyrraedd yn eich bywyd?  
Gyda gwawr oedolaeth? Yn mynd o nerth i nerth, llwyddo, yn darganfod eiliadau o heddwch?  
Neu yn y saib o'n blynnyddoedd cyfnos, pan mae'r agenda wedi ei wario.

//

**FX - sqwrsio gan bobol o wahanol oedrannau, dwr yn rhedeg yn agos**

Diwrnod Casglu, yn gwawrio yn llachar ag yn glir wrth i anadl y ddraig rhoio i lawr y dyffryn. Gwyn y gorwel yn gaddo diwrnod o wres Haf.  
Ymgynnull wrth y bont, y gweiddi i'w glywed dros yr afon yn brysur gyda glaw ddoe.

*Daf: (yn codi'w lais) Diwrnod braf i gasglu.*

*Eleri: Mae'n ddrwg gen i?*

*Daf: Ddwedes i bod e'n ddiwrnod braf - i gasglu.*

Oeddwn i wedi ei weld e o gwmpas yn y capel weithiau ar ddiwrnod gwair.

*Eleri: O. Ydi -*

*Daf: Mae'n mynd i fod yn chwilboeth. Dim cwyn gen i. Gwell fyth am dro yn y pyllau ar diwedd y dydd. Daf ydw i gyda llaw.*

*Eleri: Eleri.*

*Daf: Fel yr afon?*

*Eleri: Fel fy hen fodryb.*

Mae e'n cyfeirio at y fased sydd ar fy mraich.

*Daf: Casglu unrhywbeth penodol?*

*Eleri: Lafant, cocos corn. Budog bach ar gyfer twymyn. Iorwg ar gyfer y ddannoedd. Conau pinwydd ar gyfer peswch ac annwyd.*

*Daf: Wna' i gadw llyged mas te.*

Meiddiais i feddwl tybed yr uchelwydd oedd i'w ddiolch am y cyfarfod yma.

**FX: swm o'r afon a'r sgwrsio yn pylu**

//

**FX: yn yr ardd - can adar wedi'w gymysgu gyda galwad y robin goch**

Mae'r robin yn fy llygadu o'r giât.

Mae hi'n fy ngweld i'n sefyll yma, yn unig,

Wedi nodi ei encil araf o'r ardd, mae'r anrhefn wedi codi yn ei absenoldeb.

*Robin:*

*Beth nawr?*

Collodd hi ei chywion i'r gwcw yn y Gwanwyn.

Oedd hi'n gwybod?

Gwylom ni wrth i'r dieithryn dynnu mwydod o'i phig a'r gwllân dros ei llygaid.

Fodd bynnag, fe garodd hi fel pe bai'n un o'i phlant ei hun.

*Robin:*

*Beth nawr?*

*Beth nawr?*

Beth nawr yn wir.

Rwy'n edrych i'r bryniau.

Dwedom wrth ein hunain bod ein traed wedi troi yn rhy ansicr i'r llwybrau roedd ein calonnau yn adnabod.

Ag nawr mae e wedi mynd, ac mae Diwrnod Casglu yma eto.

//

**FX: can adar yn parhau ond yn bellach i ffwrdd nawr. Swm traed ar lwybr.**

Merch: Dere Eleri! Neu gei di dy adael ar ôl.

Roedd ganddo fusnes gyda phob carreg, pob coeden, pob pryfyn.

Casglais bren suran ag eli lemon oherwydd dyna fy mhwrpas yno, doedd gen i ddim cweryl gyda'r chwilen werdd yn tyrchu tyllau pin-dyn yn y trac. Ond mynnodd e. Gwyllo ei geg, disgleirdeb gwas y neidr yn yr haul. Enwi fe. Dod a phopeth i'r presennol pob tro i mi ei weld nhw ers.

Am braf i adnabod, a chael dy adnabod.

**FX: Eleri yn plygu i gasglu rhywbeth, mae hi'n ei roi yn y fasedd.**

Daf: Beidiog Llwyd?

Eleri: I fy nhad. Mae o'n dweud ei fod o'n gwneud lles i'w draul, ond mae Mam yn mynnu os 'na dyna'r gwirionedd y byddai'n well iddo ei yfed mewn diodyn yn hytrach na'i smocio yn ei bibell a disgyn i gysgu.

**FX: Swm mwy o blanhigion yn cael ei gasglu a'i roi yn y fasedd.**

Daf: Fi 'di dy weld di yn capel.

Eleri: Sai'n dy weld di yno'n aml.

Daf: Ma' fe'n lot o siarad ag eistedd yn llonydd.

Eleri: A ti'n fwy o'r teip pen yn y gwynt?

Daf: Ma fe'n haws i deimlo syfrdan mas fan hyn, 'so ti'n meddwl? Yn hytrach nag eistedd yn yr oerni - mond yn gallu ffocysu ar colli'r teimlad yn fy mhen ôl! Rhan fwyaf o'r amser rwy'n poeni mynd fyny mewn fflamau ar ol camu drosto'r trothwy.

Eleri: Oes posibilïad o hynny?

*Daf: Falle -*

*Eleri: Bydde hynny'n siom. Wrth weld ein bo' ni mond newydd ddechrau dod i 'nabod ein gilydd. Alli di gyrraedd hwn i mi?*

Mae e'n ymestyn am y conau pinwydd.  
Mae golau'r haul ar ei dalcen yn gwneud i mi deimlo'n fyw.

//

**FX: giat yr ardd yn cau ar y latsh. Swm traed swil ar y llawr.**

Pan brynom ni'r lle yma - newydd briodi, yn feddw ar ein gilydd - doedd dim lôn, dim ond trac rhwd o'r fan yma i'r bont.

Roedd y bwthyn yn berffaith - bychan, felly hawdd i gynhesu yn y gaeaf, gyda drws gefn yn wynebu'r bryniau. Perffaith - oni bai am y teulu o lygod oedd yn rasio nôl a blaen yn y gegin pob nos.

*Daf: Oedde nhw ma' cyn ni! Wedi'w gynnwys yn y pris!*

Benthycais i gath o'r enw Duchess ag yn fuan newidiodd y trac rhwd i lôn. Tasgodd concrit yn ddiseremoni i fyny ffin y ddraenen wen, ar y pryd, roedd hyn yn teimlo fel caethiwed eithafol. Ond nawr yn 87, mae fy nhraed yn ddiolchgar am y pendantrwydd a ddaw wrth gerdded arno.

Fe dyfom i mewn i fywyd fel un.

Dysgu ein harferion.

Cwpan o de pob bore cyn iddo ddechrau'i rownd.

Cerdded yn y glaw neu'r haul ar y penwythnos,

Gwirioni yn y gwanwyn, neu ebychu wrth i'r dyffryn droi o wyrdd i aur i oren i biws pob hydref.

Nifer o nosweithiau Orffennaf yn yfed poteli o flodau ysgawen a mafon.

Blas o ddiwrnodiau cynnes wrth i'r ddaear droi a'r Aradr yn tasgu gaeaf drosom ni o awyr clir ag oer unwaith eto.

Roedd adegau o gamddeall ein gilydd.

Ble roedd disgwyliadau yn methu.  
Ond fe dyfom ni heibio rhain hefyd.

Gweithiais i swyddi bach - trwsio, gofalu, helpu yn yr ysgol nes i fy mola i ddechrau chwyddo.

Casglu radis yn yr ardd - pan dorrodd y dyfroedd gofalgar tu mewn i mi.

Cynhyrfu gyda phwysau popeth oedd yn barod i wthio'i ffordd allan ohono i, edrychais i'r awyr am gymorth a gweld y wennol gyntaf o'r flwyddyn.

*Eleri: Ei henw bydd Hâf!*

Tri diwrnod hir, yn rhegi, yn crio, yn sgrechian.

Daliodd e fy llaw, dal fy ngwallt, gwydr o ddŵr i fy ngwefusau.

Wrth i mam brysuero mewn ag allan.

Dail mafon am y poen.

Eli camri ar fy nhalcen am gryfder.

Ond ni wna un wennol yr haf.

Doedd e ddim nes i haid ohonynt ddawnsio yn yr awyr penderfynodd hi fyrstio i mewn i'r byd.

*Daf: Ein merch bach hyfrydl.*

Doedd dim syniad ganddom ni sut i fod yn rieni.

*Daf: Alla i afael arni fel hyn?*

*Eleri: Dwylo'n fan hyn, pen fan yma.*

A pob noson unwaith oedd e adref o'r gwaith, mi oedd e'n cario hi fyny'r bryn, yn dangos y traciau oedd yr ysgyfarnog wedi ei adael ar ei ôl.

Y tri ohonom yn taflu cerrig i'r afon wrth i'r awyr macrell chwareus droi'n binc uwch ein pennau.

//

**FX: brigyn yn helpu un pêr o draed**

O'r giât tu ôl y dafarn, mae'n rhaid i mi arafu.  
Mae'r llethr yn serth, y llwybr yn llac ac yn wlyb wrth iddo droelli trwy'r coed.  
Yn fan hyn mae'r afon yn rhedeg nerth ei draed lawr y bryd yn ysu am y môr.  
Ac os wy'n mynd, y môr bydd e i mi hefyd.

Falle y bydda hi wedi bod yn gall i ddweud wrth rywun.  
I roi galwad i Haf a dweud wrthi fy mod i awydd gerdded fyny'r bryn.  
Arhosa amdana i - bydde hi wedi dweud - ddoi 'da ti.  
Ond sa'i moyn hi'n ffwdanu.

Yr olaf o'r lludw.  
Barcud coch yn hedfan uwchben.

Ble mae'r chwilen werdd a'i dyllau pin nawr?  
Rhy fach i fy llygad blinedig.

//

**FX: swm traed dau berson ar drac baw**

Allan o'r coed i lethrau isaf y bryn, gan lusgo ymhell y tu ôl i weddill y grŵp.  
Yn y blaen mae fy ffrindiau yn chwerthin ar fy nghamu araf.  
Rwy'n rhoi llond llaw o rug yn gornel fy masged a throi yn ôl i weld lethrau Picws Du yn anferth yng ngolau a chysgod yr haul.

*Eleri: Wyt ti'n teimlo dy fod 'di wedi cyrraedd mewn i dy fywyd?*

*Daf: Be ti'n feddwl?*

*Eleri: Wyt ti'n meddwl byddi di'n gwybod pan i ti 'di cyrraedd ble ti fod?*

*Daf: Sai'n credu bo'ti byth yn cyrraedd yn dy fywyd? Falle dy fod di, reit ar y cychwyn ag yna mae bywyd yn siwrne yn ol o ble ddaethom ni.*



Eleri: Sef?

Daf: Y tir? Gwreiddiau y goeden. Y gwynt drwy'r dyffryn-! Sai'n gwybod. Ond ymhen dim, fe gyrhaeddom ni ben y bryn ag ymuno a'r gweddill sydd yn byw yn yr un lle. Mi fydd y tân wedi'w gynnal. Efallai bydd canu. Bwyd a diod. A wedyn, fe ddei di a'r beidiog llwyd adre i dy Dad ei smocio. Fe gerdda i yn ôl, gwynt lafant yn yr aer yn meddwl am ti ag y diwrnod hyfryd yma. I mi, mae hyn yn ddigon.

Rwy'n troi o lethrau y Picws Du ag yn ei gusannu.  
Rhedyn yn dal o gwmpas ein coesau, yn gwlychu ein pengliniau gyda gwlyth.

//

**FX: swm plentyn bach yn chwerrhin**

Tyfodd Haf i mewn i'w hun.  
Roedd hi'n hyfryd ac yn gryf.  
Ei chwestiynau yn ddi-ddiwedd.

Haf: A wneith Stanley farw cyn fi? Faint o goed sydd yn y byd? Pam mae dwr yn wlyb?

Stanley oedd ein ceiliog.  
Llai o goed nag oblaen.  
Oherwydd mae e.  
Ond roedd o'n cymryd hi o ddifri.

Daf: Mae dwr yn wlyb oherwydd dy fod di'n teimlo bod e, ddim oherwydd bod e yn wlyb ei hun. Cau dy lygid. Os rwy'n rhoi y garreg yma ar gefn dy law. Sut deimlad yw e?

Haf: Gwlyb! Oer!

Ac felly dyfodd hi gyda'i ddawn ef o sylwi.  
Cyfri'r brown mewn plu bwncath.  
Enwi'r madarch a wthiodd o lawr y goedwig.  
Dynwared galwad gwalch y nos.

Gwranddo ar y llefydd unig, gwyllt wrth dyfu o ferch i ddynes ag ysu am rywbeth gwahanol.

*Haf: Does dim byd i wneud yma. Mae popeth yn digwydd rhywle arall.*

Gwelais i fe yn gwingo, yn ofni bod ein bywyd ni ddim yn ddigon.  
Y bywyd o'r tri ohonom gyda'n gilydd yn anoddach i weld.

Yn araf fe bliciais ei ddwylo yn rhydd a dangos iddo sut i ollwng fynd.

*Eleri: Be sydd yma iddi? Dyw hi ddim yn ni. Dyw hi ddim yn ti.*

Fe wnaethom ni bacio ei bagiau yn llawn o gacamwci ag eli lemon ac i ffwrdd â hi i chwilio am ei bywyd ei hun i adeiladu.

Ac yn nhawelwch y blynyddoedd di-Haf hynny, sylwais unwaith eto ar olau'r wawr ar ei foch wrth inni orwedd i mewn ar y penwythnos.

**FX: canu meddw yn y dafarn**

Mae e'n ymddeol gyda traed i fyny yn y dafarn - kareoke nes oriau man y bore.  
Simsanu adref wrth i'r tylluanod fflyrtio yn yr awyr uwchben.

**FX: swm tafarn yn pylu. Galwad tylluanod yn y nos**

*(yn dynwared swm twit-twoo pâr o dylluanod)*

*Eleri: Twit -*

*Daf: Who-fi?*

Mae'r llygod yn symud i mewn eto a thro yma, rwy'n gadael nhw fod.

Cerdded yn ddyddiol, yna wythnosol.

Ein gwallt yn pylu i ddynwared tusw gwelw.

Y Wermod Wen - dail sych yn socian mewn te - am ein cymalau anhyblyg.

Haf yn galw eto, yn ymweld mwy.  
Arwydd bod hithau hefyd yn sylwi ar amser yn rhuthro.  
Alla i ddim ei ddal digon cyflym  
Mae o'n dechrau croesi'r ffrwd yn arafach, gyda ffon.  
Yna dim o gwbl.

//

**FX:swn traed**

*Daf: Allwn ni wneud hyn 'to falle?*

*Eleri: Bydden ni'n hoff iawn o hynny.*

*Daf: Mae wastad mwy o lwybrau i'w gerdded.*

//

**FX: coelcerth, dathliad**

Cyrhaeddom y gopa, law yn llaw.

Y goelcerth yn barod wedi ei danio. Basgedi llawn, i'n gweld ni drwy'r gaeaf.

Fan hyn, mae'r byd yn bell i ffwrdd.

Os alla i dy ddal yn llonydd.

Gwair yn dal ein traed.

Mae e'n edrych arna i. Am ddiwrnod.

Gorwedd i lawr. Carreg y bryn wrth ein cefnau. Awyr las uwchben.

Mae e wedi tyfu'n hen. A minnau hefyd.

Mae adnabod ein gilydd yn ddiiddiwedd.

Mae'r diwrnod olaf mor dawel.

Ei anadl, yn - yn gaeth yn ei geg fel gwyfyn gan olau lamp - hedfanodd i ffwrdd yn ddistaw i'r nos. Rhad ac am ddim i gyrraedd y lleuad.

Ac mae e wedi mynd.

Cymerodd e ddiwrnod llawn i mi. Mae'n brifo i barhau.

Maen nhw wedi cynnal tan.

Rwy'n edrych i lawr ar y dyffryn o fy mywyd.

Ddeith uchelwydd neb i mi nawr.

Ond rwyf wedi adnabod e, fel rwy'n adnabod y lle yma. Yn llawn. Gyda dyfnder sydd yn tyfu gydag adnabod.

Y geiriau sydd yn fy ngheg ar ei gyfer, dropyn yn bwl y mynydd. Ffeind. Medrus. Anwesog.

Rwyf wedi ei adnabod e, fel rwy'n adnabod y lle yma.

Wedi rhyngweithio'n gyson, fel mater o drefn, bob dydd o'r bywyd hwn.

Yn hysbys, ond heb ei orchfygu.

Mae'r fflamau'n dawnsio. I ti, i ni.

Maen nhw'n dweud wrthyf dy fod di yn y bysedd cŵn.

Yn y gwenyn.

Yn y mêl.

Byddaf yn ei roi ar fy nhôst, gyda thi eto.

Dy fod di mas yno - yn yr afon a'r bryniau.

Pob craig.

Pob pryfyn.

Pob coeden.

Mae popeth yn brydferth ac rydw i mor drist o fod wedi cyrraedd yma hebdo ti.

Cyrraedd dro ar ôl tro. Bob dydd.

Efallai nad oeddwn yn adnabod y bywyd hwn yn eang, ond rwyf wedi ei adnabod yn ddwfn.

**FX: mae'r afon yn chwyddo ag yno'n disgyn yn dawel**

**Y DIWEDD.**